Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

0160

Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo, ar ddydd Mercher 3ydd Mawrth 2004 am 8.20 pm.

Presennol: *Cynghorwyr.* Cyng R. Bellamy, Cyng K. Day (cadeirydd), Cyng C. Jenkins, Cyng S. Burge, Cyng I. Gwyn
Arall; R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), C. A. Paterson (Clerc y Dref)

6022: Ymddiheuriadau: Cyng D.A. Jones Maer

6023: Materion Cynllunio: Un mater Cynllunio mae'r Cyngor wedi'i dderbyn. Cyfeirir ceisiadau cynllunio sy'n cyrraedd yn fuan wedi'r cyfarfod Cynllunio at y Cyng Day i'w hystyried.

Cyf Cynllunio	Sylwadau
Rhif yr Apêl: APP348	Mae'r pwyllgor wedi derbyn yr apêl hwn, sydd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd, mewn perthynas â'r tir wrth ymyl Frondeg, Heol Caerfyrddin. Mae'r Pwyllgor yn sefyll wrth ei wrthwynebiadau i'r cais gwreiddiol.

6024: Llythyr mewn perthynas â llygredd golau, oddi wrth Paul Metcalf.

Clerc i gydnabod derbyn y llythyr, anfonwch gopi at y Cynghorydd Sir I. Jones, ac at yr Adran Gynllunio, gan nodi fod y Cyngor yn teimlo y dylid ystyried y mater hwn mewn perthynas â phob cais cynllunio.

6025: Materion Cludiant a Goleuo.

Y Swyddog Technegol i archwilio pam nad oes yna oleuadau o amgylch adeiladau'r Cyngor Sir ar y Cilgant, Llandeilo. Mae'r goleuadau o amgylch yr adeilad wedi'u diffodd yn y nos, ac felly mae'n anodd iawn gweld, pan yn dod i Gyfarfodydd y Cyngor.

Mae yna olau nad yw'n gweithio ar ddiwedd Stryd Tomos, rhwng Stryd Tomos a Maes Mwyn. Nid yw'r golau uwchben yr arwydd Stop ar ddiwedd Maes Mwyn yn gweithio. Y

Swyddog Technegol i edrych ar y mater.

0161

6026: Gohebiaeth. Mae'r pwyllgor wedi derbyn llythyr oddi wrth Hywel Williams AS mewn perthynas â chynllun y Trysorlys i ganiatáu rhyddhad Treth i bobl sy'n prynu ail gartrefi fel pensiynau.

Cyfeirir y llythyr hwn a'i gynnwys i gyfarfod o'r Cyngor Llawn. Y Clerc i'w ychwanegu fel eitem agenda a dosbarthu copïau o'r llythyr i bob aelod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm.

0161